



19 Mawrth 2020

Annwyl Gydweithiwr

Byddwch yn ymwybodol o effaith COVID-19 ar addysg yng Nghymru a'r penderfyniadau y bu'n rhaid eu gwneud yng nghyd-destun datblygiadau difrifol a chyflym ym maes iechyd y cyhoedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod gwneud y penderfyniad i ganslo arholiadau haf 2020 o ystyried na ellir gwarantu pryd y bydd canolfannau arholiadau yn gallu ail-agor a chynnal arholiadau yn ddiogel. Mae'r sefyllfa yr un fath yn Lloegr ac rydym yn disgwyl penderfyniadau tebyg ar draws y Deyrnas Unedig.

Rydym yn cytuno mai canslo arholiadau ar gyfer haf 2020 yw'r penderfyniad cywir. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, CBAC a chyd-reoleiddwyr y DU i sicrhau bod dysgwyr oedd i fod i sefyll eu harholiadau TGAU a Safon Uwch yn cael gradd deg i gydnabod eu gwaith. Rydym hefyd yn edrych ar gymwysterau eraill a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf pan fydd modd.

Mae hon yn sefyllfa na welwyd ei bath o'r blaen ac mae'n gyfnod o ddatblygiadau iechyd cyhoeddus difrifol a chyflym. Mae hefyd yn gyfnod arbennig o bryderus, yn enwedig i unrhyw un sy'n paratoi ar gyfer arholiadau pwysig. Rydym yn gwerthfawrogi bod gan bobl nifer o gwestiynau ac rydym yn anelu at ateb y rhain cyn gynted ag y gallwn, er mwyn rhoi eglurder i ddysgwyr, rhieni, gweithwyr addysg proffesiynol ac unrhyw un arall yr effeithir arnynt ar yr adeg ansicr hon.

Rydym yn rhannu arbenigedd a phrofiad i amddiffyn dysgwyr yn y system arholiadau. Yn yr amgylchiadau eithriadol hyn gydag aflonyddwch byd eang, nid oes senario delfrydol ar gyfer arholiadau sydd, yn ôl eu natur, yn rhedeg fel digwyddiadau a reolir yn ofalus.

Ein blaenoriaeth yw sicrhau tegwch i ddysgwyr tra'n dilyn cyngor iechyd y cyhoedd.

O ran ein gwaith, rydym hefyd wedi lleihau ymgysylltiad wyneb yn wyneb yn unol â chyngor iechyd y cyhoedd ond byddwn yn parhau i siarad â rhanddeiliaid gan ddefnyddio'r holl dechnoleg sydd ar gael.

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Os ydych chi'n gyfrifol am ganolfan arholiadau, gofynnwn i chi sicrhau bod llinellau cyfathrebu yn dal i fod ar agor rhyngoch chi a'r cyrff dyfarnu rydych chi'n gweithio gyda nhw fel bod gwybodaeth - ac unrhyw geisiadau am wybodaeth - yn gallu cael ei rhannu'n gyflym. Byddwn yn parhau i gyfathrebu â chi gan ddefnyddio'r cyfeiriadau e-bost sydd gennym ar gyfer cysylltiadau allweddol mewn canolfannau arholiadau. Bydd ein tîm Cysylltiadau Allanol hefyd yn cysylltu â phob canolfan arholiadau dros y dyddiau nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol.

Mae'n amlwg bod y sefyllfa'n newid yn gyflym, a byddwn yn parhau i gael ein harwain gan gyngor gan yr awdurdodau perthnasol. Byddwn yn postio diweddariadau ar ein gwefan.

Fy nod yw rhoi mwy o fanylion i chi cyn gynted â phosibl ac rwy'n gwerthfawrogi eich amynedd. Yn y cyfamser, gobeithio eich bod yn ymdopi yn yr amser hynod gythryblus hwn.

Yn gywir



Philip Blaker
Prif Weithredwr

